CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

## Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

## Gwasanaeth Materion y Synhwyrau
## Carfan Nam ar y Clyw

# Darparu Dyfeisiau Gwrando Cynorthwyol

## 2022

## Cyflwyniad a Rhesymeg

Mae tystiolaeth yn dangos bod gwrando a dysgu yn anoddach i blant a phobl ifainc byddar/â nam ar y clyw o dan amodau swnllyd ac mewn sefyllfaoedd pan mae'r acwsteg yn wael.

Un ffordd o helpu i oresgyn yr heriau gwrando yma yw trwy ddarparu system seinchwyddo/cymhorthion ategol personol. Mae'r rhain yn cynnwys systemau diwifr digidol, systemau seinchwyddo symudol personol, a systemau sy'n lledaenu'r sain yn gyfartal yn yr ystafell ddosbarth ('soundfield').

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod dyletswydd gyfreithiol i ddarparu cymhorthion ategol i blant ag anableddau fel eu bod nhw ddim dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion.

Mae disgwyl i wasanaethau addysg ddarparu, gosod a rheoli Dyfeisiau Gwrando Cynorthwyol ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd i helpu plant byddar/â nam ar y clyw yn yr ysgol ac yn y cyfnod cyn-ysgol, yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru. (Quality Standards in Education Services for CYP with Sensory Impairment 2005).

https://gweddill.gov.wales/about/open-government/publications-catalogue/circular/circulars05/1560282/?lang=en

Gyda'r cod ADY newydd ar fin cael ei weithredu, mae disgwyl y bydd newidiadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc â nam ar y clyw.

Er mwyn helpu i ddarparu a rheoli cymhorthion ategol, rhaid i blant a phobl ifainc gael mynediad at Athro Cymwysedig Arbenigol i Blant â Nam ar y Clyw (QTHI), a fydd yn cynorthwyo â'u dysgu o'r cyfnod cyn-ysgol a thrwy gydol eu hamser yn yr ysgol yn ôl yr angen. Bydd y QTHI yn gweithio'n rhan o garfan amlasiantaeth.

Bydd meini prawf NatSIP yn cael eu defnyddio i asesu a oes angen Dyfais Gwrando Cynorthwyol ar blentyn o dan oedran cyn-ysgol, a hynny ar ôl cyfnod o brofi offer â chanlyniadau cadarnhaol.

**Nodau cynnal asesiad ar gyfer Dyfais Gwrando Cynorthwyol**

- Bydd Dyfais Gwrando Cynorthwyol yn gwella profiad gwrando'r plentyn byddar/â nam ar y clyw
- Rhoi cyfle cyfartal i'r plentyn (cyn belled ag y bo modd) i ddatblygu ymwybyddiaeth o sain a sgiliau cyfathrebu
- Bydd y plentyn yn cael cymorth i ddefnyddio'i glyw gweddilliol i'r eithaf ac elwa ar seinchwyddo

## Pwy sy'n gymwys i gael Dyfais Gwrando Cynorthwyol?

Mae'n bosibl y bydd plentyn sydd wedi colli'i glyw yn barhaol ac yn sylweddol, ac sydd wedi cael diagnosis gan wasanaeth Awdioleg y Bwrdd Iechyd Lleol, yn gymwys i ddefnyddio system seinchwyddo briodol ar gyfer ei anghenion addysgol.

Wrth ystyried y seinchwyddo ychwanegol ar gyfer plentyn, bydd y QTHI sy'n ymweld yn asesu anghenion y plentyn er mwyn nodi a fyddai'n elwa ar system o'r fath yn yr ysgol neu'r lleoliad addysg. Dylai'r penderfyniad yma i ddarparu system gael ei ystyried yn rhan o ddull amlasiantaeth o ddiwallu anghenion y plentyn, h.y. Cynllun Datblygu Unigol (CDU)/Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/MAPIT/Adolygiad Blynyddol ac ati.

## Meini prawf ar gyfer darparu cymhorthion ategol

- Defnydd cyson o seinchwyddo personol (cymhorthion clyw) wedi'u darparu gan y Bwrdd Iechyd
- Difrifoldeb y colli clyw
- Oedran y plentyn
- Sut mae'r plentyn yn gweithio yn yr ysgol/lleoliad addysg
- Effaith unrhyw anawsterau ychwanegol
- Tystiolaeth o gyfnodau o brofi offer
- Acwsteg amgylcheddol
- Barn a safbwyntiau'r plentyn/oedolion sy'n ymwneud â'r plentyn
- Sut bydd y cymhorthion yn gweddu ag offer arall
- Asesiad gan y QTHI

## Darparu offer

Yn dilyn cyfnod prawf cadarnhaol, bydd y QTHI yn llenwi ffurflen gais am offer cymorth â Nam ar y Clyw. Bydd y Panel Cynnal Dysgu yn ystyried y cais.

## Canllawiau ymarfer a rheoli parhaus

- Bydd offer ychwanegol sy'n cael ei ddarparu yn cael ei osod yn briodol i ddiwallu anghenion y plentyn
- Bydd y QTHI yn trefnu hyfforddiant mewnol ar gyfer staff a rhieni/cynhalwyr

- Bydd gwybodaeth ysgrifenedig am y system newydd, gan gynnwys rheoli'r  system o ddydd i ddydd, yn cael ei rhannu â'r staff
- Bydd pwyslais ar adeiladu hyder y plentyn fel bod modd iddo ddod yn annibynnol wrth reoli a gweithredu'r offer dros amser, gan gynnwys nodi diffygion
- Bydd Proffil Amdanaf Fi CAU/CDU y plentyn yn nodi sut mae'r offer yn cael ei ddefnyddio a'i reoli
- Bydd profion parhaus i fesur canfyddiad lleferydd mewn sŵn yn cael eu cynnal i fonitro a gwerthuso pa mor fuddiol y mae'r offer
- Os yw'r offer y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu yn mynd yn ddiffygiol, bydd y gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld yn gwirio'r offer i nodi'r broblem a threfnu sut i'w drwsio

**Dychwelyd/Tynnu cymhorthion ategol yn ôl**

- Os nad yw'r system yn cael ei defnyddio mwyach ar ôl cyfnod o hanner tymor, bydd yn cael ei thynnu'n ôl ar yr amod fod modd ei hailosod, os bydd angen, a hynny drwy gytundeb â'r disgybl ac yn dilyn ailasesiad gan y QTHI

- Bydd offer yn cael ei dynnu’n ôl os oes tystiolaeth sy'n awgrymu ei fod e ddim o fudd dros gyfnod o amser

- Pan fydd y disgybl yn gadael yr ysgol neu'n symud i Awdurdod Lleol arall, bydd y Gwasanaeth Caffael yn cadw'r system

- Pan fydd disgybl yn cam-drin y system yn fwriadol yn gyson, yn dilyn trafodaethau â phawb dan sylw, mae modd ei thynnu'n ôl

**Yswiriant**

Rhaid i'r ysgol a/neu'r teulu yswirio'r holl offer seinchwyddo ychwanegol sy'n cael ei ddarparu. Dylai lefel yr yswiriant sicrhau bod modd cyfnewid yr offer am offer newydd.

Rhaid rhoi copi o'r yswiriant i'r gwasanaeth ar gyfer y cofnodion.

Rhaid dychwelyd offer seinchwyddo ychwanegol sy'n cael ei ddarparu mewn cyflwr da.

**Cynnal a chadw**

- Rhaid gwirio'r offer yn ddyddiol, fel y cytunwyd
- Rhaid i aelod o'r gwasanaeth Nam ar y Clyw wirio'r offer yn rheolaidd
- Rhaid darparu hyfforddiant priodol

- Rhaid i aelod o staff dynodedig gymryd cyfrifoldeb am reoli'r offer
- Gwerthuso (gan gynnwys gwerthuso staff prif ffrwd) a holiaduron ar gyfer rhanddeiliaid
- Cyswllt rhwng y QTHI a gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth Awdioleg, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth ysgrifenedig

# Meini Prawf Cymhwyster ar gyfer Dyfais Gwrando Cynorthwyol

| NatSIP | |
|---|---|
| A1 | 20 |
| A2 | 15 |
| A3 | 10 |
| B1 | 5 |
| B2 | 5 |
| C | 0 |

| Cymorth Clyw/Mewnblaniad yn y cochlea (CI) | |
|---|---|
| Phonak SP | 15 |
| CI | 15 |
| Arall | 0 |

| Sgoriau canfyddiad lleferydd mewn sŵn > 65d BA | |
|---|---|
| Gwael | 20 |
| Da | 10 |
| Ardderchog | 0 |

| Yr ystafell ddosbarth | |
|---|---|
| Gwael - angen gwelliant sylweddol | 30 |
| Gwael - addasiadau lleiaf posibl wedi'u gwneud | 20 |
| Da - rhai addasiadau wedi'u gwneud | 10 |
| Da iawn - amgylchedd ffafriol iawn o ran acwsteg | 5 |

| Anghenion Meddygol Ychwanegol | |
|---|---|
| Oes, gydag effaith sylweddol ar anghenion clyw | 15 |
| Oes, ond ddim yn effeithio ar anghenion clyw | 0 |
| Na | 0 |

| Colli clyw o'r amledd uchaf i'r isaf ('ski slope') | |
|---|---|
| Ie | 20 |
| Na | 0 |

| **Cyfanswm y sgôr** | |
|---|---|